

Ebrill 2026

# Undebau Credyd a dewisiadau amgen yn lle credyd cost uchel

- Angen benthyca arian ond am osgoi credyd cost uchel?
- Sut i ymuno ag undeb credyd
- Ffynonellau eraill o gredyd teg a fforddiadwy

Helpwr Arian

Llywodraeth y DU

**Wrthi'n eich helpu i reoli eich arian heddiw ac ar gyfer y dyfodol**

Beth bynnag eich amgylchiadau, mae HelpwrArian ar eich ochr chi. Ar-lein a thros y ffôn, rydym yn cynnig arweiniad clir sy'n gyflym i'w ddarganfod, yn hawdd ei ddefnyddio ac wedi'i gefnogi gan y llywodraeth. Gallwn hefyd eich cyfeirio at wasanaethau dibynadwy, os oes angen rhagor o gymorth arnoch.

Gallwn ni eich helpu i:

- delio â dyled
- deall eich opsiynau pensiwn
- lleihau eich gwariant a chronni cynilion
- llywio digwyddiadau bywyd megis colli swydd, tor perthynas, ymddeol neu brofedigaeth
- cyllidebu ar gyfer biliau neu bryniannau mawr
- dysgu am forgeisi a rhentu
- cael gwybod am fudd-daliadau a hawliadau ychwanegol.

Chwiliwch am HelpwrArian: **moneyhelper.org.uk/cy**

**Canllawiau diduedd am ddim**
ar-lein | dros y ffôn

Gan y

Gwasanaeth Arian a Phensiynau

# Yma i'ch helpu

**Mae'r canllaw hwn ar eich cyfer chi os ydych chi angen credyd ond na allwch chi ddefnyddio darparwr benthyciadau prif ffrwd ac nad ydych chi eisiau defnyddio benthyciad diwrnod cyflog neu ffurfiau eraill ar gredyd cost uchel. Pan fyddwch yn ei ddarllen byddwch yn gwybod:**

- sut y mae undebau credyd yn gweithio a sut y gallant eich helpu
- sut i ymuno ag undeb credyd
- pa ffynonellau eraill o gredyd teg a fforddiadwy allai fod ar gael i chi.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Defnyddio credyd yn ddoeth | 2 |
| Benthyca o undeb credyd | 3 |
| Cost benthyca gan undeb credyd | 4 |
| Pam dewis undeb credyd? | 5 |
| Dod o hyd i undeb credyd | 6 |
| Ffynonellau amgen o gredyd fforddiadwy | 7 |
| Sut i ddod o hyd i ddarparwr cyllid teg | 8 |
| Sicrhau bod eich darparwr benthyciad yn ddilys | 9 |
| Beth sy'n digwydd os na allwch chi ad-dalu'ch benthyciad | 10 |
| Cysylltiadau defnyddiol | 11 |
| Os bydd pethau'n mynd o chwith | 12 |

# Defnyddio credyd yn ddoeth

**Os ydych chi angen benthyg arian, mae ychydig gwestiynau cyflym ond pwysig sydd angen i chi ofyn i'ch hun cyn i chi fwrw ymlaen.**

## A ydych chi wirioneddol angen gwario'r arian hwn yn awr?

A yw'r peth yr ydych chi'n ei brynu neu eisiau talu amdano ar gredyd wirioneddol yn hanfodol? A allech chi fyw hebddo? A fyddai'n bosibl oedi'r pryniant? Os gallwch chi aros hyd nes y gallwch ei fforddio, bydd yn costio tipyn yn llai i chi.

Mae benthyca arian i dalu am hanfodion, megis rhent, bwyd neu filiau'r cartref, yn arwydd y gallech chi fod angen cymorth i gael trefn ar bethau. Edrychwch am sefydliadau a all eich helpu chi yn *Cysylltiadau defnyddiol* ar d11, neu ewch i **moneyhelper.org.uk/cy/money-troubles/dealing-with-debt/debt-advice-locator**

## A allwch chi fforddio ei ad-dalu?

Os oes angen i chi fenthyca arian, cyfrifwch faint y gallwch fforddio ei ad-dalu bob wythnos neu fis. Gosodwch gyllideb i'ch hun sy'n cynnwys ad-daliadau realistig.

Mynnwch gymorth gyda chynllunio cyllideb ac edrychwch a oes unrhyw arbedion y gallwch eu gwneud yn eich treuliau, ewch i **moneyhelper.org.uk/cy/everyday-money/budgeting/beginners-guide-to-managing-your-money**

## A oes ffordd well o gael gafael ar yr arian?

Os oes rhaid i chi fenthyca arian, mae'n bwysig eich bod yn edrych ar ddewisiadau amgen yn lle credyd cost uchel. Efallai y gall eich cyflogwr roi peth o'ch cyflog i chi ymlaen llaw, neu efallai y gallwch ddefnyddio ychydig o'ch cynilion.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i leihau costau a gweld pa gymorth ychwanegol sydd ar gael, ewch i **moneyhelper.org.uk/cy/money-troubles/cost-of-living/squeezed-income**

Efallai y byddwch yn gymwys i gael budd-daliadau neu gymorth a grantiau eraill. Defnyddiwch ein cyfrifiannell Budd-daliadau am ddim i wirio: **moneyhelper.org.uk/cy/benefits/benefits-calculator**

Os ydych chi ar fudd-daliadau penodol, mae'n bosibl y gallech chi gael Blaenswm Cyllidebu neu Fenthyciad Cyllidebu. Ewch i **moneyhelper.org.uk/cy/everyday-money/credit/budgeting-loans-and-budgeting-advances**

Ceisiwch osgoi credyd drud fel benthyciadau diwrnod cyflog neu fenthycwyr arian didrwydded anghyfreithlon os gallwch chi. Ewch i **moneyhelper.org.uk/cy/everyday-money/credit/options-for-borrowing-money**

**Cynlluniwr cyllideb**

Defnyddiwch ein Cynlluniwr Cyllideb i gyfrifo sut y gallwch wneud newidiadau er mwyn i'ch arian barhau'n hirach.

Ewch i **moneyhelper.org.uk/cy/budget-planner**

# Benthyca o undeb credyd

## Beth yw undeb credyd?

Mae undebau credyd yn sefydliadau cynilo a benthyca cydweithredol cymunedol, lle mae aelodau'n cronni'u cynilion er mwyn benthyca i'w gilydd a helpu i redeg yr undeb credyd. Maen nhw'n gweithio'n debyg iawn i fanciau, ond mai'r aelodau sy'n defnyddio'u gwasanaethau sydd yn berchen arnynt, ac maen nhw'n cael eu rhedeg er lles yr aelodau hynny.

Mae'n bosibl y bydd undeb credyd yn fwy parod i'ch helpu na banc stryd fawr neu gymdeithas adeiladu os oes gennych incwm isel, neu os nad oes gennych hanes blaenorol o fenthyca.

Yn y DU, mae 2 filiwn o bobl bellach yn perthyn i undeb credyd.

Ffynhonnell: Banc Lloegr, 2025

## Pwy all ymuno ag undeb credyd?

Gallwch ymuno ag undeb credyd os ydych yn rhannu 'cysylltiad cyffredin' gyda'r aelodau eraill, fel:

- byw neu weithio yn yr un ardal
- gweithio i'r un cyflogwr
- yn aelod o'r un undeb, eglwys neu gymdeithas arall.

Mae gan bob undeb credyd ei 'gysylltiad cyffredin', ond fel arfer bydd yn seiliedig ar un neu ragor o'r enghreifftiau uchod.

## Benthyciadau undeb credyd

Mae gan undebau credyd ffyrdd gwahanol o fenthyca arian. Bydd rhai'n rhoi benthyciad i chi cyn gynted ag y dewch yn aelod, er byddant am sicrhau bod gennych ddigon o arian ar ôl talu'ch biliau i fforddio ad-dalu'r benthyciad.

Bydd rhai eraill yn benthyca i chi pan fyddwch wedi dangos eich bod yn gallu cynilo'n rheolaidd. Gallai olygu cynilo am ychydig o wythnosau cyn y gallwch wneud cais i fenthyca ganddynt.

Fel arfer mae undebau credyd yn benthyca symiau bach at unrhyw bwrpas, er enghraifft i dalu am nwyddau i'r tŷ, cost y Nadolig neu atgyweirio car.

### Mathau o fenthyciad

Gall y rhan fwyaf o undebau credyd fenthyca arian am hyd at bum mlynedd ar gyfer benthyciad heb ei ddiogelu, a hyd at ddeng mlynedd ar gyfer benthyciad wedi'i ddiogelu.

Mae benthyciad wedi'i ddiogelu ynghlwm ag un o'ch asedau, fel arfer eich car neu'ch cartref. Os na fyddwch yn ad-dalu'r benthyciad, mae gan yr undeb credyd yr hawl i werthu'r ased hwnnw er mwyn cael ei arian yn ôl.

Nid yw benthyciad heb ei warantu yn cael ei ddiogelu gan unrhyw ased.

### Yswiriant diogelu benthyciad

Pan fyddwch yn benthyca gan undeb credyd, gallech gael yswiriant bywyd am ddim i sicrhau gwerth y benthyciad. Golyga hyn y bydd yr yswiriant yn ad-dalu'r benthyciad os byddwch yn marw cyn ei dalu'n ôl yn llawn.

# Cost benthyca gan undeb credyd

**Ar gyfer benthyciadau llai, byrrach, mae undeb credyd yn codi cyfraddau llog llawer yn is na darparwyr benthyciadau ar garreg y drws a darparwyr benthyciadau diwrnod cyflog. Gall benthyciadau mwy fod yn is na 10% APR (yn aml yn is na rhai cyfraddau llog gan fanciau).**

Bydd y cyfraddau llog a godir yn amrywio yn ddibynnol ar y math o fenthyciad ond ni chaiff fod yn uwch na 3% o log y mis (yn cyfateb i APR o 42.6%). Y cap yng Ngogledd Iwerddon yw 1% y mis (12.9% APR).

Gofynnwch i'ch undeb credyd lleol am ei gyfraddau llog ar fenthyciadau. Os byddwch chi'n ad-dalu benthyciad undeb credyd yn gynnar, fel arfer ni fyddant yn codi tâl arnoch chi.

**Enghraifft**

Pe byddech yn benthyca £500 dros chwe mis gan undeb credyd yn codi APR o 42.6% o log y flwyddyn, ac yn gwneud ad-daliadau ar amser bob mis, gallech ddisgwyl ad-dalu £93.99 y mis am chwe mis. Byddai hyn yn gyfanswm o £563.93 (yn cynnwys £63.93 o log).

Pe byddech chi'n benthyg swm tebyg gan ddarparwr benthyciadau carreg y drws byddai'r gost yn sylweddol uwch.



Yr APR (Cyfradd Ganrannol Flynyddol) yw'r gyfradd llog ynghyd ag unrhyw ffioedd sydd wedi'u cynnwys yn eich benthyciad.

# Pam dewis undeb credyd?

## Gall undebau credyd eich helpu chi i reoli'ch arian

Gall undeb credyd eich helpu i gael eich cyllid o dan reolaeth.

Yn gyffredinol maent yn:

- annog pobl i gynilo'n rheolaidd – yn wythnosol, bob pythefnos neu'n fisol
- caniatáu i chi gynilo symiau bychain
- barod i fenthyca symiau bychain am gyfnodau byr.

Mae rhai undebau credyd hefyd yn cynnig cymorth gyda chyllidebu a gwasanaethau rheoli dyledion.

## Gwasanaethau eraill a gynigir gan undebau credyd

### Cynilion

Mae undebau credyd hefyd yn cynnig cyfrifon cynilo. Mae rhai yn cynnwys cyfradd llog sefydlog ar gynilion, ond bydd y rhan fwyaf yn talu'r hyn a elwir yn 'difidend' naill ai'n flynyddol neu'n amlach.

Y difidend yw'r ffordd mae'r undeb credyd yn rhannu ei elw gyda'i aelodau. Bydd y swm y byddwch chi'n ei dderbyn, os o gwbl, yn amrywio gan ddibynnu ar faint o elw y mae undeb credyd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn.

Mae rhai undebau credyd yn cynnig cyfrifon cynilo at y Nadolig a bydd yn rhaid i chi roi rhybudd os ydych eisiau cymryd eich arian allan cyn mis Tachwedd bob blwyddyn. Gallai hyn fod yn ffordd dda o gynilo ar gyfer y Nadolig gan y gallech chi fod yn llai tebygol o dynnu'ch arian allan nac y byddech chi gyda chyfrif cynilo arferol.

### Cynhyrchion eraill

Ochr yn ochr â chyfrifon cynilo a benthyca, mae rhai (fe arfer yr undebau credyd mwy) hefyd yn cynnig:

- cyfrifon cyfredol neu gardiau rhagdaledig
- ISAs (Cyfrifon Cynilo Unigol)
- cynlluniau angladd
- morgeisi.

# Dod o hyd i undeb credyd

**Os nad ydych chi'n siwr a oes undeb credyd yn eich ardal chi, defnyddiwch offeryn chwilio ar-lein neu ffoniwch un o'r cymdeithasau undeb credyd i holi beth sydd ar gael yn lleol.**

Dewch o hyd i undeb credyd yn eich ardal yn **findyourcreditunion.co.uk**

Yng Ngogledd Iwerddon, mae Cynghrair Undebau Credyd Iwerddon a Ffederasiwn Undebau Credyd Wlster.
**creditunion.ie**
**ufcu.co.uk**

Rhaid i bob undeb credyd gael y geiriau 'credit union' yn eu henw cofrestredig (neu 'undeb credyd' yng Nghymru). Ond mae rhai undebau credyd yn masnachu fel 'banciau cymunedol' neu enwau eraill heb gynnwys y geiriau 'credit union/undeb credyd'.

Am fanylion cymdeithasau undeb credyd, gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 11.

## Cyn i chi ymuno – rhestr wirio

- Gwiriwch a oes angen i chi fod yn gynilwr cyn y gallwch chi fenthyca.
- Gwiriwch faint o fenthyciad fydd yr undeb credyd yn ei gynnig fel arfer ac am ba hyd. Mae rhai'n cynnig benthyciadau bach dros gyfnodau byr a bydd rhai'n cynnig mwy dros gyfnodau hirach.
- Gofynnwch am y gyfradd llog a'r APR.
- Gwiriwch pa wasanaethau eraill maent yn eu cynnig, er enghraifft cyfrifon cynilo at y Nadolig, cyfrifon cyfredol neu yswiriant.
- Gwiriwch sut y gallwch chi wneud eich ad-daliadau a pha un a yw'n gyfleus i chi.

# Ffynonellau amgen o gredyd fforddiadwy

**Ochr yn ochr ag undebau credyd mae mentrau eraill sy'n cynnwys benthyciadau teg a fforddiadwy i bobl nad ydynt yn gallu cael credyd prif ffrwd.**

Er eu bod yn ddrutach na benthyciadau undeb credyd, mae'r rhoddwyr benthyciadau hyn yn cynnig credyd ar delerau mwy fforddiadwy na darparwyr credyd cost uchel, megis cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog. Yn yr un modd â'r holl fenthyciadau dylid seilio ad-daliadau ar asesiad fforddiadwyedd sy'n sicrhau y gallwch chi fforddio gwneud eich ad-daliadau benthyciad.

Mae rhai hefyd yn cynnig cyngor ar reoli arian a dyledion. Gallai hyn gynnwys cyngor ar sut i ddelio gyda digwyddiad bywyd annisgwyl neu newid arall i incwm a gwariant yn y dyfodol.

## Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol

Sefydliadau bach annibynnol yw Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol (SCDCau) sy'n cynnig benthyciadau i bobl a wrthodwyd gan eu banc neu gwmni cerdyn credyd. Maen nhw'n dueddol o fod yn sefydliadau lleol sy'n cynnig gwasanaeth wedi'i bersonoli ac ail-fuddsoddi unrhyw elw y maen nhw'n ei wneud yn ôl i'r gymuned.

Gallwch ddod o hyd i ddarparwr benthyciadau arall, gan gynnwys CDFIs, yn eich ardal chi yn **findingfinance.org.uk**. Mae Finding Finance yn cael ei redeg gan Responsible Finance, y corff aelodaeth i fenthycwyr cyfrifol.

## Ffyrdd amgen o gael mynediad at gredyd

Mae darparwyr cyllid teg newydd yn cael eu sefydlu drwy'r amser ac nid yw bob un ohonynt yn gweithredu ar yr un model. Er enghraifft, yn hytrach na chodi llog ar fenthyciad, gallai darparwr godi ffi aelodaeth fisol yn gyfnewid am un neu fwy o fenthyciadau di-log y flwyddyn. Mae dal yn syniad da gwirio'r APR, sy'n cynnwys y ffioedd y mae'n rhaid i chi eu talu yn ogystal ag unrhyw log. A chwiliwch am roddwyr eraill i wirio a yw'n fargen deg (gan gynnwys os nad ydych eisiau mwy nag un benthyciad).

# Sut i ddod o hyd i ddarparwr cyllid teg

**Responsible Finance yw'r corff aelodaeth i ddarparwyr benthyciadau sy'n darparu cyllid i'r rheini nad ydynt fel arfer yn cael eu cefnogi gan ddarparwyr benthyciadau prif ffrwd.**

Mae eu holl aelodau wedi cytuno i:

- gynnig gwasanaeth personol a chefnogol ac yn sicrhau eich bod chi'n cael y fargen orau y mae eu haelodau yn ei chynnig; a
- gweithredu fel mentrau cymdeithasol ac yn ail-fuddsoddi elwa yn ôl i'r gymuned neu'r sefydliad.

Fel y dylai'r holl ddarparwyr benthyciadau, byddant yn trin cwsmeriaid yn deg trwy fod yn glir gyda chi am gostau benthyca a dim ond benthyca i chi os gallwch chi fforddio ad-dalu'r benthyciad.

Mae Responsible Finance yn cynnig cyfleuster chwilio – Finding Finance – sydd yn eich helpu chi i ganfod darparwr benthyciad teg a fforddiadwy gan ddibynnu ar lle'r ydych chi'n byw a faint sydd angen i chi ei fenthyca. Dim ond yn lleol y bydd rhai darparwyr benthyciadau yn gweithredu ac mae eraill yn cwmpasu'r wlad gyfan.

Ewch i **findingfinance.org.uk**

Fel arfer gofynnir i chi ddangos prawf bod darparwyr benthyciadau'r stryd fawr wedi gwrthod rhoi credyd i chi yn gyntaf.



# Sicrhau bod eich darparwr benthyciad yn ddilys

## Undebau credyd

Mae Undebau Credyd wedi'u rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA). Mae hyn yn golygu bod rhaid iddynt gadw at reolau penodol a bodloni safonau penodol.

## SCDCau a darparwyr benthyciadau eraill

Rhaid i Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol (SCDCau) a'r holl sefydliadau eraill sy'n cynnig credyd i ddefnyddwyr fod wedi'u hawdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), a chadw at eu rheolau a safonau.

## Gwiriwch y Gofrestr Gwasanaethau Ariannol

I wirio a oes gan sefydliad ganiatâd gan yr FCA i gynnig credyd i chi, gallwch eu gwirio ar y Gofrestr Gwasanaethau Ariannol. Dysgwch ragor yn **fca.org.uk/firm-checker**

Os byddwch chi benthyca gan gwmni nad yw wedi'i restru gyda'r FCA, ni fyddwch chi wedi'ch diogelu gan y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol os aiff pethau o chwith – gweler *Cysylltiadau Defnyddiol* ar dudalen 11.

## Dewis darparwr benthyciadau sy'n perthyn i gymdeithas fasnach

Os ydych chi'n benthyca gan undeb credyd, gallai cysylltu â'ch cymdeithas undeb credyd lleol fod yn lle da i ddechrau. Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 11.

Os ydych yn ystyried benthyca gan CDFI neu roddwr benthyciadau arall, defnyddiwch y gwasanaeth Finding Finance a ddarperir gan Responsible Finance. Ewch i **findingfinance.org.uk.**

# Beth sy’n digwydd os na allwch chi ad-dalu’ch benthyciad

**Os na allwch chi wneud eich ad-daliadau benthyciad, gall eich darparwr benthyciadau, os oes angen, gael arian sy’n ddyledus iddynt yn ôl:**

- gan ddefnyddio asiantaethau casglu dyledion
- trwy’r Adran Gwaith a Phensiynau os ydych chi’n derbyn budd-daliadau gwladol
- drwy Lys Sirol os ydych yn cael eich cyflogi
- trwy gymryd diogelwch a gedwir yn erbyn y benthyciad.

Yn yr un modd ag unrhyw broblem ariannol, y peth gwaethaf y gallwch chi ei wneud yw ei hanwybyddu. Cysylltwch â’ch darparwr benthyciadau cyn gynted â phosibl. Rhaid iddynt eich trin yn deg a gweithio gyda chi i ddod o hyd i ddatrysiad. Gallai hyn gynnwys gwyliau ad-dalu neu newid y swm y byddwch chi’n ei ad-dalu bob wythnos neu fis.

Mae sefydliadau a all roi cyngor am ddim i chi ac awgrymu’r datrysiadau gorau i chi.

Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 11 neu ewch i: **moneyhelper.org.uk/cy/money-troubles/dealing-with-debt/debt-advice-locator**

# Cysylltiadau defnyddiol

### HelpwrArian

Mae HelpwrArian yn annibynnol ac yn cael ei gefnogi gan y llywodraeth i'ch helpu i wneud y gorau o'ch arian. Rydym yn rhoi arweiniad arian a phensiynau diduedd am ddim i bawb ledled y DU – ar-lein a thros y ffôn.

Ewch i ni yn **moneyhelper.org.uk/cy**

Neu cysylltwch â ni drwy:

### Ffôn

Arweiniad ar arian
DU: **0800 138 7777**
os ydych y tu allan i'r DU
**+44 20 3553 2279**
Llun - Gwe 8am i 6pm

Arweiniad Arian a Phensiynau DU:
**0800 011 3797**
os ydych chi y tu allan i'r DU:
**+44 20 7932 5780**
Llun – Gwe 9am i 5pm

### Gwe-sgwrs:

**moneyhelper.org.uk/moneychat**

**moneyhelper.org.uk/pensions-chat**

### WhatsApp

**+44 7701 342744**

### Cymunedau ar-lein

Ymunwch â'n grwpiau Facebook am gymorth: **moneyhelper.org.uk/cy/blog/everyday-money/come-and-join-our-online-communities**

## Cymdeithasau masnach undeb credyd

### Cymdeithas Undebau Credyd Prydain (ABCUL)
0161 832 3694
**abcul.org**

### Cynghrair Undebau Credyd yr Alban
0141 774 5020
**slcu.coop**

### Cynghrair Undebau Credyd Iwerddon
**creditunion.ie**

### Ffederasiwn Undebau Credyd Wlster
028 9030 1204
**ufcu.co.uk**

## Darparwyr cyllid teg

### Dod o hyd i Gyllid
**findingfinance.org.uk**

## I gael cymorth gyda phroblemau dyledion

### Cyngor ar Bopeth
Lloegr 0800 144 8848
Cymru 0800 702 2020
Yr Alban 0800 028 1456
**citizensadvice.org.uk/cymraeg/**

### Advice NI
0800 915 4604
**adviceni.net/advice/debt**

### Elusen Dyledion StepChange
0800 138 1111
**stepchange.org**

### Llinell Ddyled Genedlaethol
0808 808 4000
**nationaldebtline.org**

### Money Advice Scotland
**moneyadvicescotland.org.uk**

# Os bydd pethau'n mynd o chwith

## Cwynion

Os aiff pethau o chwith, dylech gysylltu'n gyntaf â'ch darparwr benthyciadau i roi cyfle iddynt gywiro'r hyn yr ydych chi'n anhapus yn ei gylch. Rhaid iddo ddilyn gweithdrefn benodol wrth ddelio gyda chwynion.

Os nad ydych chi'n hapus â'r ffordd y mae darparwr benthyciadau wedi datrys eich cwyn neu os yw'r ddwy ochr yn cytuno, gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol.

### Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol (Financial Ombudsman Service)

0800 023 4567 neu 0300 123 9123
**financial-ombudsman.org.uk**

## Iawndal os bydd undeb credyd yn methu

Os oes gennych gynilion gydag undeb credyd a fydd yn mynd i'r wal, mae'n bosibl y byddwch chi'n gallu cael iawndal gan Gynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS). Mae swm yr iawndal y gall yr FSCS ei dalu i bob aelod fel arfer wedi'i gyfyngu i £120,000. Cysylltwch â'r FSCS i gael gwybod rhagor.

### Cynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol (FSCS)

0800 678 1100
**fscs.org.uk**

Mae rhagor o wybodaeth am gŵynion neu hawlio iawndal yn **moneyhelper.org.uk/cy/everyday-money/credit/financial-mis-selling-what-to-do-if-you-think-its-affected-you**



## Defnyddiwch y dudalen hon i gofnodi'ch nodiadau

Cynhyrchir y canllaw hwn gan HelpwrArian ac mae hefyd ar gael yn Saesneg. I weld ein cyfres lawn o ganllawiau ac i archebu copïau ewch i **moneyhelper.org.uk/cy/contact-us/free-printed-guides**

Cymraeg

## Cysylltu â ni

Arweiniad ar arian **0800 138 7777**
Llun – Gwe 8am i 6pm

Arweiniad ar bensiynau **0800 011 3797**
Llun – Gwe 9am i 5pm

Gwasanaethau trosglwyddo testun **1800 1 0800 915 4622**
Llun – Gwe 8am i 6pm

WhatsApp **+44 7701 342744**

Gwefan **moneyhelper.org.uk/cy**

Helpwr Arian

MIX
Paper | Supporting responsible forestry
FSC® C003270
FSC www.fsc.org

Mae galwadau o r DU am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn recordio neu fonitro galwadau.

**Fformatau hygyrch**
Os hoffech chi gael y canllaw hwn mewn Braille, print bras neu fformat sain, cysylltwch â ni ar y rhifau uchod. Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2026). Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

© **HelpwrArian** Ebrill 2026

Cyf: CU_Apr26_Ed1_Welsh